# Mannau Cyfarfod Cynaliadwy

YMDDIRIEDOLAETH GARBON

## *Prosiect i Annog Mannau Cyfarfod i Ddefnyddio Llai o Ynni – gweithdy ymateb*

Yn gynharach eleni, cafodd mannau cyfarfod ledled Cymru gyfle i ymuno â Phrosiect yr Ymddiriedolaeth Garbon i Annog Mannau Cyfarfod yng Nghymru i Ddefnyddio Llai o Ynni. Cafwyd ymateb brwd a buom yn cydweithio â 24 o ganolfannau. Cynhaliwyd arolwg ynni ym mhob un a chawsant gyngor sut i helpu eu cwsmeriaid i gynnal digwyddiadau mwy cynaliadwy.  Roedd y rhai a gymerodd ran  yn cynnwys canolfannau cymuned bychain, theatrau, neuaddau eang a chanolfannau academaidd mawr.

Rydym yn awyddus i gynifer o ganolfannau ag y bo modd gael cyfle i elwa ar y prosiect hwn a hoffem eich gwahodd chi i ymuno â ni yn y gweithdy ymateb.



## Pryd a lle?

**10:00 – 15:00** (darperir cinio)
**Dydd Mawrth 26 Tachwedd 2013**
Trwy garedigrwydd Canolfan Mileniwm Cymru, Bae Caerdydd

CANOLFAN MILENIWM CYMRU WALES MILLENNIUM CENTRE

**15:00 –16:30**
Derbyniad diodydd gyda Creu Cymru – croeso i bawb!

Creu Cymru

## Pwy ddylai ddod?

Os hoffech leihau costau ynni'ch canolfan chi neu ddod yn ganolfan fwy cynaliadwy neu os hoffech helpu'ch cwsmeriaid i gynnal digwyddiadau cynaliadwy, fe wnewch chi elwa o ddod i'r gweithdy hwn.

## Pam ddylen ni ddod?

- I glywed am arferion da, ffigurau pwysig a themâu allweddol y prosiect;
- I rannu'r hyn a ddysgwyd ac i ystyried cyfleoedd posibl i gydweithio;
- I gael gwybod am y cymorth sydd ar gael i weithredu'r prosiect;
- I gymryd rhan mewn sesiwn ryngweithiol yn trafod ffyrdd ymarferol o wneud eich canolfan yn fwy cynaliadwy - dan ofal Positive Impact;
- I weld ein harddangosfa fach lle bydd cyrff fel WRAP a Creu Cymru wrth law i drafod unrhyw gwestiynau penodol sydd gennych;
- I fanteisio ar y cyfle prin hwn i rwydweithio â chynrychiolwyr pob math o fannau cyfarfod eraill, bach a mawr.

**CLICIWCH YMA i gofrestru**

**Atodir rhaglen y diwrnod a byddwn yn anfon y cyfarwyddiadau llawn ymlaen llaw. Os bydd arnoch angen rhagor o wybodaeth, gallwch gysylltu â'r tîm digwyddiadau ar 02920 694916 neu walesevents@carbontrust.com**

Mae digwyddiadau Ymddiriedolaeth Garbon Cymru yn cydymffurfio â BS8901: Rheoli Digwyddiad yn Gynaliadwy. Mae'r Ymddiriedolaeth Garbon yn cael ei hariannu gan y Llywodraeth, yn cynnwys Llywodraeth Cymru. Er y cymerwyd camau rhesymol i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir ac y gyflawn, nid yw'r Ymddiriedolaeth Garbon, ei hasiantau, contractwyr, isgontractwyr nac arianwyr yn cynnig unrhyw sicrwydd nac yn gwneud unrhyw sylwadau o ran ei chywirdeb na'i chyflawnrwydd ac ni fyddant yn atebol am unrhyw gamgymeriad neu esgeulustod. Drwy beidio â "dad-danysgrifio" rydych yn cadarnhau eich bod yn rhoi caniatâd i ni ddefnyddio'r wybodaeth rydych yn ei darparu amdanoch chi eich hun at y pwrpasau canlynol - sef darparu'r gwasanaethau y gofynnoch amdanynt; gweinyddu a rheoli cyfrifon, hyrwyddo grŵp yr Ymddiriedolaeth Garbon a'i raglenni, cynnyrch a gwasanaethau, gan gynnwys ymchwil marchnata ynglŷn â'u heffeithiolrwydd; a marchnata uniongyrchol perthnasol gan grŵp yr Ymddiriedolaeth Garbon drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt a ddarparwyd. Gall hyn gynnwys datgelu gwybodaeth felly gan yr Ymddiriedolaeth Garbon i drydydd parti penodol. Os nad ydych am i'r wybodaeth rydych yn ei darparu gael ei defnyddio yn y modd hwn, cliciwch yma i ddad-danysgrifio. I ddileu eich cyfeiriad e-bost o'n llythyru yn y dyfodol **cliciwch yma** i ddad-danysgrifio.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government